**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our MA-RE-5012-24

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2023-24**

**EBRILL 2024**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i alluogi Llywodraeth Cymru i:**

- **gario cyllid ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall, yn enwedig pan wneir newidiadau i gyllid canlyniadol yn Amcangyfrifon Atodol y DU; a**

- **chynyddu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol ar Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2023-24 a blynyddoedd i ddod.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am fwy o hyblygrwydd cyllidol drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) a thrwy gyfarfodydd dwyochrog a chyfarfodydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Changhellor y Trysorlys.

Mae'r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg, sy'n golygu ein bod yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU, sy'n methu â chydnabod yr effaith ar ein cyllidebau a'r gwaith craffu a ddarperir gan y Senedd. Nid yw trefniadau ariannol presennol y DU yn cynnig y rhagweladwyedd a'r sicrwydd cyllidol y mae ei angen i gefnogi ein cynlluniau cyllidebol a chynlluniau ein sefydliadau partner.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi tynnu sylw gynt at yr achos dros bwerau wrth gefn gwell yng Nghymru ac i gynyddu'r terfynau tynnu i lawr, os na chânt eu diddymu. Barn IFS yw y dylai'r terfynau presennol ar y cyfanswm y gellir ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn gael eu mynegeio mewn rhyw ffordd, ar y lleiaf, i gyfrif am dwf mewn gwario datganoledig a refeniw trethi.

Nododd adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru fod cyfyngiadau'r gyllideb a ddefnyddir gan Drysorlys EF yn tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae'r adroddiad yn dadlau bod yr hyblygrwydd ariannol yr ydym yn parhau i'w geisio gan Drysorlys EF yn rhesymol, ac y dylai naill ai ei dderbyn neu esbonio ei resymeg.

Ar 27 Chwefror, cyflwynodd pob plaid yn y Senedd gynnig ar y cyd a phleidleisio yn unfrydol i Lywodraeth y DU ddarparu hyblygrwydd cyllidol ychwanegol i Gymru.

Yn 2024-25 bydd terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru werth bron i chwarter (23%) yn llai mewn termau real na phan gawsant eu cyflwyno yn 2018-19. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno'r achos dro ar ôl tro i derfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru gael eu mynegeio gyda chwyddiant ac i ddiddymu ei therfynau ar gyfer tynnu i lawr o'i Chronfa Wrth Gefn. Darparwyd yr hyblygrwydd hwn i Lywodraeth yr Alban fis Awst diwethaf ac maent yr un mor gymwys i Gymru.

Ar ben hynny, mae'r cynnydd yn lefel yr hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfalaf a gynigir gan Lywodraeth y DU i Ogledd Iwerddon i gefnogi'r gwaith o adfer y Weithrediaeth yn gyferbyniad llwyr i'r diffyg cynnydd yn ein terfynau benthyca.

Mae gwerth ein cyllideb cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25 hyd at 8% yn llai mewn termau real na phan gafodd ei phennu adeg yr Adolygiad o Wariant yn 2021. Rhaid bod yn deg ac yn gyson wrth weithredu trefniadau cyllido'r DU ar draws pob rhan o'r DU.

Yn ogystal â'r cynnydd mewn benthyciadau a therfynau tynnu i lawr, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet, ynghyd â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill, yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU sefydlu egwyddor y gellir rheoli cyllid a gadarnhawyd yn Amcangyfrifon Atodol y DU ar draws blynyddoedd ariannol, yn ogystal ag unrhyw swm y caniateir ei gario ymlaen a ganiateir o dan drefniadau wrth gefn. Byddai hyn yn ffurfioli'r trefniadau blaenorol ac

yn rhoi mwy o sicrwydd i lywodraethau datganoledig i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

Mae llywodraethau datganoledig wedi cael caniatâd i gario cyllid ymlaen yn Amcangyfrifon Atodol y DU sy'n wahanol i fwy na 10% o'r amcangyfrifon cychwynnol a ddarparwyd ym mis Ionawr. Er bod unrhyw gytundeb sy'n darparu cymorth i reoli'r risg o ansicrwydd i'w groesawu, nid yw'r mecanwaith hwn yn ddigonol pan hysbysir newidiadau materol mor hwyr â mis Ionawr mewn blwyddyn ariannol. Eleni, roedd y newidiadau i'r adnoddau cyfun yn cyfrif am fwy na hanner cyfanswm gwerth Cronfa Wrth Gefn Cymru.

Yng nghyfarfod diweddaraf F:ISC ar 14 Mawrth, sicrhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet (y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gynt) gytundeb gan Brif Ysgrifennydd Trysorlys EF a swyddogion y Llywodraethau Datganoledig i gydweithio i gyflwyno cynigion pellach ar sut y gellir gwella proses Amcangyfrifon Atodol y DU yn y blynyddoedd i ddod.

Croesewir cefnogaeth barhaus y Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

---

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros benderfyniad y Trysorlys i beidio â chaniatáu'r switsh mewn cyllid o refeniw i gyfalaf a’r effaith y mae hyn wedi'i chael ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Ni chytunodd Trysorlys EF i'n cais i newid cyfalaf i refeniw y tu hwnt i'r rhai a ddeilliodd o addasiadau Barnett o switshys y cytunwyd arnynt ar gyfer Adrannau Llywodraeth y DU, a dim ond oherwydd newidiadau eraill y mae effaith gwrthod y switsh wedi'i lliniaru.

Adolygwyd ein rhaglenni cyfalaf fel rhan o'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn pan ofynnwyd i Lywodraeth y DU newid rhywfaint o'n cyllideb gyfalaf i refeniw.

Pan wrthododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys y cais hwnnw, adolygwyd ein sefyllfa gyfalaf ac, yn yr amser byr a oedd ar gael, gwnaethom rai dyraniadau cyfalaf y gellid eu darparu erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn ein hail gyllideb atodol, roeddem yn rhag-weld cario tua £70m o gyfalaf ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i'w ddefnyddio yn y blynyddoedd i ddod.

Nid yw'r broses bresennol lle y dyrennir 'switshys' i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfran Barnett o 'switshys' Whitehall yn addas i'r diben ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth ei hanghenion penodol.

Rydym yn falch bod cefnogaeth beinciau'r Ceidwadwyr inni gael y gallu i wneud switshys o Gyfalaf i Adnoddau ar glawr.

Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet wedi nodi effaith penderfyniad Trysorlys EF, yn y pen draw, mater i Drysorlys EF yw nodi ei resymeg.

---

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gosod cynnig cyllideb atodol ychwanegol gerbron y Senedd wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Protocol y Gyllideb y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiad i gyhoeddi dwy gyllideb atodol bob blwyddyn.

Nid dim ond cynlluniau gwario sydd o dan sylw mewn cyllidebau atodol, ond hefyd lefel yr adnoddau a geir. Hwy yw'r mecanwaith ffurfiol i gytuno ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth a rheoleiddio cyllido gwariant drwy gyllid sy'n dod i law oddi wrth lywodraeth y Deyrnas Unedig a threthi datganoledig. Dim ond pan fydd yr holl wybodaeth honno ar gael y mae'n briodol cyflwyno cyllideb atodol.

Rhoddir ystyriaeth i amseriad pob cyllideb atodol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau i gyllidebau o ganlyniad i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, a hefyd i gofnodi newidiadau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn ceisio cysoni amseriad ein cyllidebau atodol â Phrif Amcangyfrifon ac Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU i ganiatáu i'r Senedd graffu ar lefel yr adnoddau yn ogystal â chynigion ar gyfer eu defnyddio.

Fel arfer, cyhoeddir cyllideb atodol gyntaf blwyddyn ariannol yn dilyn cwblhau Prif Amcangyfrif Llywodraeth y DU; gall hyn hefyd gadarnhau newidiadau yn deillio o Ddatganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU ym mis Mawrth a hysbyswyd yn rhy hwyr i'w cynnwys yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

Fel arfer, cyhoeddir yr ail gyllideb atodol ar ôl i Amcangyfrif Atodol Llywodraeth y DU gael ei gwblhau. Gan mai'r gyllideb atodol hon yw'r cyfle olaf yn ystod y flwyddyn ariannol i reoleiddio newidiadau oherwydd penderfyniadau Llywodraeth y DU mae'r amseru'n hanfodol i sicrhau bod cynigion gwariant sy'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd yn cynnwys y newidiadau hynny. Mae Amcangyfrifon Atodol y DU fel arfer yn dod i ben ar ddechrau mis Chwefror.

Gellir gwneud penderfyniadau dyrannu, naill ai o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru neu eu hail-flaenoriaethu o fewn MEGs i fynd i'r afael â phwysau sy'n dod i'r amlwg, cyn cyllideb atodol a'u rheoleiddio mewn cyllideb atodol arfaethedig.

Cafodd cyllideb atodol ychwanegol ei dwyn ymlaen yn ystod blwyddyn gyntaf pandemig Covid yng ngoleuni'r cronfeydd ychwanegol eithriadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yng nghanol y flwyddyn honno.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn mynd i sesiwn graffu ffurfiol cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r manylion pe bai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet yn parhau i groesawu'r gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ac yn cefnogi ymgysylltiad yn y broses gyllidebol.

Mae hyn yn cynnwys craffu ar newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn megis yr ymarfer adolygu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd dros fisoedd haf 2023.

---

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi'r wybodaeth alldro a ragwelir yn rheolaidd o fewn y flwyddyn, i gynnwys dadansoddiad o'r gwariant o fewn pob Prif Grŵp Gwariant a sut mae'r dyraniadau hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau a gynlluniwyd, er mwyn darparu'r tryloywder mwyaf posibl i'r Senedd ac i'r cyhoedd yng Nghymru.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym eisoes yn amlinellu gwybodaeth sylweddol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy Gyhoeddiadau'r Gyllideb Drafft, Terfynol ac Atodol. Rydym yn adrodd ar fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Hefyd, drwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi ystod o wybodaeth drwy ein gwefan ar fonitro a chanlyniadau meysydd polisi.

Rydym yn hapus i ystyried gwelliannau drwy ein gwaith ar Gynllun Gwella'r Gyllideb, gan gydnabod bod rhaid i newidiadau o'r fath fod yn gymesur ac y dylid eu hystyried hefyd drwy unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu manylion am y cynnydd y mae byrddau iechyd lleol yn ei wneud o ran cyrraedd cyfansymiau rheoli targed cyn y sefyllfa alldro yn yr haf, ac yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd i osgoi'r angen am ddyraniadau ychwanegol yn y maes hwn yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd pob un ond tri o sefydliadau'r GIG yn cyflawni'r targedau a bennwyd ar eu cyfer ym mis Tachwedd, gan gynnwys y gostyngiadau o 10% mewn diffygion y gofynnwyd amdanynt.

Yn anffodus, nid yw tri Bwrdd wedi llwyddo i gyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed. Er hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwrthbwyso'r diffygion hynny yn rhannol drwy ddod o hyd i arbedion cynyddol o fewn ei phortffolios cyllidebol.

Rhagwelwyd diffyg cyfunol y GIG, ym Mis 11, fel £71.5m yn uwch na'r cyfansymiau rheoli targed a bennwyd gan y Gweinidog.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i swyddogion wedi parhau i weithio gyda sefydliadau'r GIG i geisio gwella eu sefyllfaoedd yn y flwyddyn ariannol hon ac yn y dyfodol.

Mae fframwaith uwchgyfeirio sefydledig ar gyfer sefydliadau'r GIG a gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar yn nodi'r sefyllfa ar 23 Ionawr.
Er bod lefel gyffredinol yr uwchgyfeirio yn adlewyrchu ystyriaethau ehangach yn ogystal â'r sefyllfa ariannol, mae'n werth nodi bod y tri Bwrdd Iechyd sy'n rhag-weld y byddant yn brin o'u cyfansymiau rheoli targed i gyd yn destun lefelau uwch o uwchgyfeirio.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig; rhoddodd y Gweinidog Hywel Dda, yn ei gyfanrwydd, mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu ym mis

Ionawr; ac fe gafodd Aneurin Bevan ei uwchgyfeirio at Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn benodol ar gyfer Cyllid a Chynllunio.

Cyflwynodd y Byrddau Iechyd eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs) erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu ac mae cynlluniau ariannol ar gyfer 24-25 yn destun gwaith craffu.

---

**Argymhelliad 7**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith y bydd gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer polisïau iechyd meddwl drwy’r Gyllideb Atodol yn ei chael ar wasanaethau iechyd meddwl.**

**Ymateb: Derbyn**

Roeddem yn wynebu sefyllfa ariannol heriol iawn yn 2023-24 a bu rhaid i ni gymryd camau gweithredu ganol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn gallu rheoli ein sefyllfa yn gyffredinol. Nodwyd arbedion cyllidebol sylweddol o bob rhan o'r Llywodraeth ac ail-luniwyd ein cyllideb i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw nodwyd arbedion sylweddol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei MEG ei hun. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cyllidebau canolog HSS a gafodd eu hailgyfeirio wedyn i ddarparu cymorth pellach ar gyfer pwysau rheng flaen yn y GIG - gan gynnwys mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd nifer o elfennau o'r cyllid iechyd meddwl a oedd yn cael eu dal yn ganolog nad oeddent wedi'u hymrwymo'n llawn ac fe'u nodwyd fel rhan o'r ymarfer hwn.

Gwnaethom ddarparu manylion am y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn ein hatodiad i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer 23/24 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Cynyddodd y cyllid iechyd meddwl canolog £25m ar gyfer 2023-24 a bernid ei bod yn debygol y byddai oedi wrth roi cynlluniau ar waith yn ogystal ag oedi na ellir ei reoli mewn deddfwriaeth, felly gellid lleihau cyllidebau, a chadw'r effeithiau i'r lleiaf posibl.

Roedd rhai meysydd o waith polisi sydd wedi'u harafu oherwydd hyn, ond cafodd gwasanaethau craidd yn y GIG, gan gynnwys y gyllideb Iechyd Meddwl sydd wedi'i chlustnodi eu diogelu a'u cefnogi gan y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'n bwysig cydnabod bod y brif gyllideb Iechyd Meddwl allan yng nghyllid craidd y GIG a'i bod wedi'i chlustnodi. Ar gyfer 2023-24 mae hyn tua £774m a hwn yw'r maes clinigol o hyd lle'r ydym yn gwario fwyaf yn y GIG.

---

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal asesiad effaith i ddeall manteision y cymorthdaliadau a ddarperir yn y Gyllideb Atodol i gefnogi'r system trafnidiaeth gyhoeddus ac yn rhannu ei ganfyddiadau â'r Pwyllgor erbyn Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25.**

**Ymateb: Cytuno mewn Egwyddor**

Mae asesiad o fanteision darparu'r cyllid hwn eisoes wedi'i gynnal fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Darperir crynodeb o hyn isod.
Mae wedi bod yn gyfnod eithriadol o heriol i'r diwydiant rheilffyrdd ledled y DU. Gwnaethom y penderfyniad i ddiogelu gwasanaethau rheilffyrdd hanfodol drwy ddarparu £125m i Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn y gyllideb atodol, a oedd wedi'i nodi yng nghynllun busnes TrC i weithredu gwasanaethau a chyflwyno trenau newydd. Ni chynhwyswyd hyn yn y gyllideb gychwynnol er mwyn gweithio gyda TrC i leihau'r swm y mae ei angen i'r lefelau isaf.

Heb y cyllid ni fyddai Trafnidiaeth Cymru wedi gallu parhau i weithredu eu holl wasanaethau rheilffyrdd a byddai swyddi wedi bod mewn perygl. Roedd angen y cyllid i lenwi'r bwlch yng nghyllideb refeniw Trafnidiaeth Cymru a achoswyd gan effaith pandemig Covid ar yr amcanestyniadau refeniw uchelgeisiol o gais gwreiddiol KeolisAmey yn 2018. Mae rhai costau gweithredol wedi cynyddu o ganlyniad i bwysau chwyddiant. Roedd llawer o'r costau hyn yn hysbys o'r cychwyn cyntaf, ond ni fu modd eu gwrthbwyso gan fod y pandemig wedi arwain at 3 blynedd o ddiffyg twf mewn refeniw teithwyr. Mae incwm o refeniw teithwyr bellach wedi'i adfer i'r lefel wreiddiol

cyn y pandemig ac rydym yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i adeiladu ar hyn i sicrhau'r twf y mae ei angen mewn teithwyr i leihau cymhorthdal yn y dyfodol.

Rydym wedi buddsoddi llawer mwy o arian yn y rheilffyrdd nag o dan y system flaenorol. Manteision y dull hwn yw trenau newydd ar draws ardal Cymru a'r Gororau, trawsnewidiad gwerth £1bn i Linellau Craidd y Cymoedd a gwasanaethau amlach. Byddai'r buddsoddiadau sylweddol sydd eisoes wedi'u gwneud yn y rheilffyrdd ledled Cymru wedi cael eu peryglu heb y cyllid a ddarparwyd yn y gyllideb atodol. Bydd y pecyn buddsoddi llawn hefyd yn helpu i gynyddu'r galw ac felly'n cynyddu incwm refeniw yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod.

---

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y bydd gostyngiadau yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn ei chael ar niferoedd staff Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel sy'n wir am holl gyllidebau Llywodraeth Cymru, mae cyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu wedi'i phennu o fewn cyd-destun cyllidol heriol iawn. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 (LlC2025) yw'r cyfrwng ar gyfer newid a gwelliant parhaus i'r sefydliad ac adnoddau staff sy'n cefnogi cyflawni blaenoriaethau cyflawni Llywodraeth Cymru. Er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau ehangach sydd o'n blaenau, mae LlCG2025 wedi'i ailffocysu a'i symleiddio ac mae bellach yn cynnwys tair ffrwd waith, **Newid Maint**, **Newid Lleoedd** a **Newid Siâp** - pob un yn gyfrifol am ddylunio a gweithredu newidiadau a fydd yn ein helpu i barhau i gyflawni ar gyfer pobl yng Nghymru mewn amgylchiadau ariannol gwahanol iawn.

Mae rhaglen a strwythur llywodraethiant LlC2025 yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol agos â phartneriaid yn yr undebau llafur drwy gydol ei gweithrediad. Caiff grwpiau mewnwelediad staff eu sefydlu hefyd i sicrhau bod y rhaglen yn elwa ar syniadau a mewnwelediad swyddogion Llywodraeth Cymru ar bob gradd ac ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r rhan fwyaf o gyllideb costau rhedeg Llywodraeth Cymru yn cael ei gwario ar staff a bydd y ffrwd waith **Newid Maint** yn helpu i ddatblygu cynllun gweithlu sy'n fforddiadwy o fewn cyllidebau. Mae'r camau sydd eisoes wedi'u cymryd yn cynnwys symud i broses recriwtio allanol drwy eithriad, dileu nifer o swyddi gwag allanol y cytunwyd arnynt yn flaenorol, ac adolygu contractau dros dro.

Ym mis Mawrth cafodd Cynllun Ymadael Gwirfoddol ei lansio. Rhaglen yw hon sy'n caniatáu i gyflogeion Llywodraeth Cymru adael eu cyflogaeth yn wirfoddol yn gyfnewid am daliad diswyddo. Bydd yr union niferoedd a fydd yn gadael y sefydliad drwy'r cynllun yn dibynnu ar oblygiadau cynllunio'r gweithlu a chymysgedd graddau'r sy'n gwneud cais ond rhagwelir y bydd tua 150 o bobl yn gadael. Er hynny, fel gydag unrhyw gynllun o'r math hwn, bydd angen ei dargedu'n briodol fel na fydd y sefydliad yn colli sgiliau a phrofiad a fydd yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ffrwd waith **Newid Siâp** yn edrych ar y model gweithredu presennol a sgiliau a gallu adnoddau staffio, a sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ar y meysydd cywir neu a ddylid ad-drefnu adnoddau i fodloni blaenoriaethau. Mae'n ystyried yr hyn y gallai fod angen ei newid i gynyddu effaith ac effeithiolrwydd, gan gynnwys opsiynau radical, a sut y gall digidol a thechnoleg gefnogi'r newid hwnnw. Mae'n bwysig nodi y bydd hefyd yn ystyried sut y gallwn greu sefydliad cynaliadwy, medrus sy'n cael ei gefnogi at y dyfodol.

Mae ffrwd waith **Newid Lleoedd** yn ystyried opsiynau i leihau ystad Llywodraeth Cymru; i wneud defnydd mwy effeithlon o adeiladau; i nodi arbedion cost y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf tra'n cymryd golwg hirdymor ar ddyfodol yr ystad. Sylfaen y gwaith hwn yw ffocws ar sut i leihau ôl troed carbon yr ystad a chefnogi Gweithio'n Glyfar effeithiol.